# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)26-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Hydref 2009

**Amser:** 8.00

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Mandy Lewis, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Llywydd y cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Peter Black.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)25-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 6 Hydref 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)26-09(p1)**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 13 a 14 Hydref 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-09(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)26-09(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer y dadleuon a ganlyn:

**Dydd Mercher 21 Hydref 2009 -**

Datganiad deddfwriaethol gan y Llywydd ar Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) (30 munud)

Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23.81 (1 funud)

**Dydd Mercher 11 Tachwedd 2009 -**

Dadl ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2008/09 (30 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd (60 munud)

Y Ddadl Fer a ohiriwyd ers 8 Gorffennaf 2009: NDM4262 Chris Franks (Gorllewin De Cymru): Cyllid i chi, eich cymuned, ac i Gymru (30 munud)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn busnes**

**Papur ar ddiwygio Rheol Sefydlog 23.81, mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol - BC(3)26-09(p4)**

4.1 Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y gwelliant technegol i Reol Sefydlog 23.81, mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol, a chyfeiriad at adran yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Nododd y Pwyllgor y byddai cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 23.81 yn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 21 Hydref 2009.

**5. Deddfwriaeth**

**Papur eglurhaol ar Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) - BC(3)26-09(p5a) ac amserlen ddarluniadol - BC(3)26-09(p5b)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) at Bwyllgor Deddfwriaeth ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 gyda chais iddo gyhoeddi adroddiad erbyn 12 Mawrth 2010.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**